Home Office

# Y Swyddfa Gartref

# Canllawiau Penodol i'r Sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor (FIRS): Y Sector Academia ac Ymchwil

Ebrill 2025

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch at y Tîm Polisi Gwybodaeth, Yr Archifau Cenedlaethol, Kew, Llundain TW9 4DU, neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn https://www.gov.uk/government/collections/foreign-influence-registration-scheme

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn

FIRS@homeoffice.gov.uk

# Cynnwys


Rhestr termau allweddol 2

Ynglŷn â'r Canllawiau hyn 3

Adran 1: Trosolwg o'r gofynion 4

- Haen Dylanwad Gwleidyddol 4
- Haen Uwch 5
- Manylion pellach ar ofynion cofrestru 6
- Gofynion pellach 6

Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy 7

- Haen Dylanwad Gwleidyddol 7
- Haen Uwch 8

Adran 3: Esemptiadau rhag cofrestru 11

- Trefniadau Corff Coron y DU (y ddwy haen) 11
- Trefniadau cyrff cyhoeddus y DU (haen uwch yn unig) 12
- Trefniadau addysg a ariennir (haen uwch yn unig) 13

Adran 4: Senarios cyffredin sy'n effeithio ar y sector addysg uwch ac ymchwil 16

- Haen Dylanwad Gwleidyddol **Error! Bookmark not defined.**
- Haen Uwch **Error! Bookmark not defined.**

Adran 5: Y gofrestr gyhoeddus ac eithriadau i gyhoeddi 25

- Gwybodaeth sensitif yn fasnachol 26

Adran 6: Materion ychwanegol sy'n berthnasol i'r sector 27

- Gofyniad i ddiweddaru cofrestriad pan fydd newid sylweddol 27
- Pwy sy'n gyfrifol am y gofynion cofrestru 28
- Rhyngweithio â chynlluniau eraill y Llywodraeth 30

# Rhestr termau allweddol

| | |
|---|---|
| **FIRS** | Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor. Y Cynllun a gyflwynwyd trwy Ran 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. |
| **Trefniant** | Unrhyw fath o gytundeb, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Gallai gynnwys contract, memorandwm dealltwriaeth (MOU) neu gytundeb neu drefniant anffurfiol quid pro quo. Nid yw'n cynnwys sgyrsiau nad ydynt yn troi'n gytundeb neu drefniant. |
| **Pŵer tramor** | Mae iddo'r ystyr a roddir gan Adran 32 o Ddeddf Diogelwch Gwladol 2023. Ceir rhagor o fanylion yn adran 1. |
| **Gweithgareddau dylanwad gwleidyddol** | Cyfathrebiad, cyfathrebiad cyhoeddus neu ddarpariaeth o arian, nwyddau neu wasanaethau a fwriedir i ddylanwadu ar fater gwleidyddol. |
| **Pŵer tramor penodedig** | Pŵer tramor sydd wedi'i bennu trwy reoliadau o dan haen uwch FIRS. |
| **Gweithgaredd perthnasol** | Math o weithgaredd o fewn cwmpas cofrestru o dan haen uwch FIRS. |
| **Esemptiad** | Amgylchiad lle nad yw gofynion cofrestru yn berthnasol. Mae manylion pellach yn adran 3. |
| **Cofrestrai** | Person y mae'n ofynnol iddo gofrestru o dan FIRS. |
| **Hysbysiad gwybodaeth** | Hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r derbynnydd ddarparu gwybodaeth bellach sy'n ymwneud â threfniadau neu weithgareddau y gellir eu cofrestru o dan FIRS. |

# Ynglŷn â'r Canllawiau hyn

Mae'r ddogfen hon yn darparu canllawiau ychwanegol sy'n benodol i'r sector ar y Cynllun Cofrestru Dylanwad Tramor ar gyfer y sector ymchwil, y byd academaidd ac addysg uwch. Mae hyn yn cynnwys canllawiau ar drefniadau ar brosiectau ymchwil, trefniadau ariannu, esemptiadau a chyhoeddi gwybodaeth.

Bwriad y ddogfen yw galluogi dealltwriaeth o sut mae gofynion y cynllun yn berthnasol yng nghyd-destun y sector. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion y cynllun yn fwy cyffredinol yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol a'r canllawiau ar yr haen uwch. Cynhyrchwyd canllawiau ar wahân hefyd ar y pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bwerau tramor a bennir o dan yr haen uwch.

Bwriad y canllawiau hyn yw egluro gofynion allweddol cynllun FIRS, sydd wedi'u cynnwys yn Rhan 4 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhai sydd o fewn cwmpas y cynllun i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn seiliedig ar eu hamgylchiadau penodol eu hunain.

Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i gefnogi rhyddid barn a rhyddid academaidd. Mae'r DU hefyd yn parhau i fod yn agored i ymgysylltu a chydweithredu tryloyw â phwerau tramor. Mae'r rhai sy'n cofrestru'n llawn ac yn gywir yn cefnogi gwydnwch y DU a'i sefydliadau yn wyneb bygythiadau gan wladwriaethau. Nid yw cofrestru trefniant neu weithgaredd ynddo'i hun yn golygu ei fod o reidrwydd yn anghyfreithlon neu'n annymunol. Nid yw FIRS yn atal unrhyw weithgaredd rhag digwydd; cyn belled â bod y trefniadau'n dryloyw, gall gweithgareddau cysylltiedig fynd rhagddynt fel arfer.

# Adran 1: Trosolwg o'r gofynion

1. Mae gofynion y cynllun wedi'u rhannu'n ddwy haen:
   - Yr haen dylanwad gwleidyddol, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau ag unrhyw bŵer tramor (ac eithrio Gweriniaeth Iwerddon) i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU;
   - Yr haen uwch, sy'n ei gwneud yn ofynnol cofrestru trefniadau i gynnal set ehangach o weithgareddau ond dim ond gyda'r pwerau tramor neu endidau a reolir gan bwerau tramor sydd wedi'u pennu mewn rheoliadau.

## Haen Dylanwad Gwleidyddol

2. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer tramor i gynnal, neu'n trefnu i eraill gynnal, gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y DU.

3. Pŵer tramor yw unrhyw un o'r canlynol:
   a) pennaeth sofran neu bennaeth arall Gwladwriaeth dramor,
   b) llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor (er enghraifft, gweinidogaeth neu adran llywodraeth dramor);
   c) asiantaeth neu awdurdod llywodraeth dramor, neu ran o lywodraeth dramor;
   d) awdurdod sy'n gyfrifol am weinyddu materion ardal o fewn gwlad neu diriogaeth dramor (er enghraifft, awdurdod llywodraeth leol mewn gwlad dramor);
   e) plaid wleidyddol sy'n blaid wleidyddol lywodraethol llywodraeth dramor.

4. Ni ystyrir bod endidau sy'n eiddo i neu dan reolaeth pŵer tramor, er enghraifft prifysgolion, labordai neu sefydliadau ymchwil sy'n eiddo i'r wladwriaeth, yn bwerau tramor yn rhinwedd y berchnogaeth hon yn unig.

5. Dim ond lle mae "cyfarwyddyd" gan bŵer tramor i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

6. Mae gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cynnwys rhai gweithgareddau cyfathrebu, gweithgareddau cyfathrebu cyhoeddus neu ddarparu arian, nwyddau neu wasanaethau, lle bwriedir iddynt ddylanwadu ar unrhyw un o'r canlynol:
   - Etholiad neu refferendwm yn y DU;
   - Penderfyniad Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth (gan gynnwys Gweinidog neu adran o'r Llywodraeth yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon);
   - Trafodion plaid wleidyddol gofrestredig yn y DU (megis eu hymrwymiadau maniffesto);
   - Aelod o Dŷ'r Cyffredin, Tŷ'r Arglwyddi, Cynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban neu Senedd Cymru (wrth weithredu yn rhinwedd eu swydd fel y cyfryw).

7. Gallai gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn y sector ymchwil, y byd academaidd a'r sector addysg uwch gynnwys:
   - Cyfathrebiadau â gweision sifil uwch a gweinidogion mewn adran o'r llywodraeth sy'n ceisio dylanwadu ar bolisi addysg;
   - Ymddangos mewn pwyllgorau dethol a gweithgareddau seneddol eraill sy'n darparu gwybodaeth sy'n ceisio dylanwadu ar ASau neu gyfoedion;
   - Cyhoeddi erthygl sy'n annog cefnogaeth i Fil Aelod Preifat, heb ddatgan bod y cyhoeddiad wedi'i gyfarwyddo gan bŵer tramor;
   - Cyflwyno canlyniadau ymchwil a chynigion polisi cysylltiedig i weision sifil uwch.

8. Rhaid cofrestru trefniadau o dan yr haen dylanwad gwleidyddol o fewn 28 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud. Gall gweithgareddau ddigwydd o fewn y ffenestr 28 diwrnod honno heb gofrestru ymlaen llaw.

9. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen dylanwad gwleidyddol yw 2 flynedd o garchar.

10. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol.

## Haen Uwch

11. Mae'n ofynnol i unigolion a sefydliadau gofrestru o dan yr haen uwch os cânt eu cyfarwyddo gan bŵer neu endid tramor penodedig i gynnal, neu drefnu i eraill gynnal, ystod ehangach o "weithgareddau perthnasol" yn y DU. Mae'n ofynnol hefyd i endidau penodedig a reolir gan bŵer tramor gofrestru unrhyw "weithgareddau perthnasol" y maent yn eu cyflawni eu hunain yn y DU.

12. Mae canllawiau ar wahân wedi'u cynhyrchu sy'n nodi'r pwerau tramor a'r endidau a reolir gan bŵer tramor a bennir o dan yr haen uwch. Mae'r canllawiau hyn hefyd yn darparu rhagor o fanylion am y "gweithgareddau perthnasol" y mae angen eu cofrestru.

13. Dim ond lle mae "cyfarwyddyd" gan bŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, i weithredu y mae gofynion cofrestru yn berthnasol.

14. Gallai gweithgareddau "perthnasol" yng nghyd-destun y byd academaidd gynnwys:
    - Cynnal digwyddiad neu gynhadledd yn y DU dan gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor;
    - Ymgymryd â phrosiect ymchwil dan gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor;
    - Anfon gwybodaeth o'r DU i bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

15. Mae angen cofrestru trefniadau o dan yr haen uwch o fewn 10 diwrnod calendr i'r trefniant gael ei wneud, a chyn cynnal gweithgareddau. Mae'n drosedd cynnal gweithgareddau perthnasol o dan drefniant cofrestradwy heb i'r trefniant gael ei gofrestru yn gyntaf.

16. Y gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofynion yr haen uwch yw 5 mlynedd o garchar.

17. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am ofynion yr haen hon yn y canllawiau ar yr haen uwch.

## Manylion pellach am ofynion cofrestru

18. O dan y ddwy haen, mae cofrestru yn ofynnol gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y trefniant cofrestradwy gyda'r pŵer tramor, pŵer tramor penodedig neu endid a reolir gan bŵer tramor. Y trefniant y mae'n rhaid ei gofrestru, nid pob gweithgaredd unigol a fydd yn cael ei gynnal. Dylai unigolion neu sefydliadau eraill sy'n ymwneud â chynnal y gweithgareddau o dan drefniant cofrestradwy wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru cyn cynnal y gweithgareddau. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn adran 6.

19. Dim ond pan gaiff ei gynnal yn y DU y gellir cofrestru gweithgaredd. O'r herwydd, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau a gynhelir yn gyfan gwbl mewn prifysgolion tramor (fel y gall fod yn wir gyda rhai cydweithrediadau ymchwil neu drefniadau addysg drawswladol).

20. Mae cofrestru yn broses syml ac rydym yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o gofrestreion yn cydymffurfio â'r gofynion trwy'r gwasanaeth cofrestru ar-lein FIRS pwrpasol.

## Gofynion pellach

21. Lle bo newid sylweddol i unrhyw wybodaeth a gofrestrwyd o dan FIRS, rhaid diweddaru'r wybodaeth o fewn 14 diwrnod calendr, gan ddechrau gyda'r diwrnod y mae'r newid yn dod i rym. Enghraifft o newid sylweddol fyddai lle bo newid sylweddol yn y dyddiad cychwyn neu derfyn disgwyliedig ar gyfer gweithgareddau (megis oedi neu estyniad sylweddol i pryd y gallai prosiect ymchwil ddechrau a gorffen).

22. Mae'r cynllun hefyd yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi hysbysiadau gwybodaeth i'r rhai sydd wedi cofrestru, neu eraill y credir eu bod yn ymwneud â threfniadau neu weithgareddau cofrestradwy. Rhaid i dderbynwyr hysbysiadau gwybodaeth ymateb gyda'r wybodaeth sy'n ofynnol gan yr hysbysiad erbyn y dyddiad a bennir. Gellir dod o hyd i fanylion pellach yn y canllawiau ar hysbysiadau gwybodaeth.

# Adran 2: Enghreifftiau o drefniadau cofrestradwy ac anghofrestradwy

## Haen Dylanwad Gwleidyddol

**Enghraifft 1 (angen cofrestru):** Mae Adran Addysg Gwlad A yn cysylltu â phrifysgol yn y DU i wneud trefniant i dderbyn mwy o fyfyrwyr o Wlad A. Fel rhan o'r trefniant, mae'r brifysgol yn y DU yn cytuno i lobïo Llywodraeth y DU i greu rhaglen astudio tymor byr heb fisa ar gyfer Gwlad A. Yn gyfnewid, mae Adran Addysg Gwlad A yn cynnig hyrwyddo'r brifysgol ymhlith myfyrwyr o fewn y wlad a chynnig cyfleoedd swyddi penodol i raddedigion o'r brifysgol. Mae'r brifysgol yn y DU yn e-bostio Ysgrifennydd Cartref y DU, gan amlinellu rhesymau pam ei bod yn ystyried y dylid creu'r rhaglen hon.

Mae'n ofynnol i'r **brifysgol yn y DU** gofrestru. Maent mewn trefniant gydag Adran Addysg Gwlad A (**pŵer tramor**) sy'n cynnig hyrwyddo'r brifysgol i fyfyrwyr yn y wlad os (**cyfarwyddyd**) ydynt yn gwneud cyfathrebiad â gweinidog y llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniad y llywodraeth (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw eithriadau'n berthnasol.

**Enghraifft 2 (angen cofrestru):** Mae Adran Wyddoniaeth Gwlad B yn dod i drefniant gyda phrifysgol yn y DU i ddarparu cyllid i'r brifysgol ar gyfer prosiect ymchwil. Fel rhan o'r trefniant, mae'r brifysgol yn cytuno i gysylltu â Llywodraeth y DU i hyrwyddo defnyddio meddalwedd wyddonol a grëwyd gan Wlad B o fewn lluoedd arfog y DU. Mae'r brifysgol yn e-bostio Ysgrifennydd Gwladol Amddiffyn y DU, gan amlinellu rhesymau pam ei bod yn ystyried y dylid defnyddio'r feddalwedd hon.

Mae'n ofynnol i **brifysgol y DU** gofrestru. Maent mewn trefniant gydag Adran Wyddoniaeth Gwlad B (**pŵer tramor**), lle byddent yn derbyn cyllid pe byddent (**cyfarwyddyd**) yn gwneud cyfathrebiad â gweinidog llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniad llywodraeth y DU (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw eithriadau'n berthnasol.

**Enghraifft 3 (angen cofrestru):** Mae Adran Wyddoniaeth Gwlad C yn gwneud trefniant gydag academydd o brifysgol yn y DU, ac yn rhoi cyllid iddynt ar gyfer eu hymchwil preifat eu hunain, y byddai'r academydd yn cadw'r elw ohoni eu hunain. Fel rhan o'r trefniant, mae'r academydd yn cytuno i ddefnyddio eu cysylltiadau gyda llywodraeth y DU i hyrwyddo'r defnydd o feddalwedd wyddonol a grëwyd gan Wlad C o fewn lluoedd arfog y DU. Mae'r academydd yn e-bostio Ysgrifennydd Gwladol Amddiffyn y DU, gan amlinellu rhesymau pam eu bod yn ystyried y dylid defnyddio'r feddalwedd hon.

Mae'n ofynnol i'r **academydd** gofrestru. Maent mewn trefniant gydag Adran Wyddoniaeth Gwlad C (**pŵer tramor**) mewn perthynas â'u gwaith eu hunain, lle mae ganddynt drefniant gyda budd ariannol (**cyfarwyddyd**) i wneud cyfathrebiad i weinidog llywodraeth i ddylanwadu ar benderfyniad llywodraeth y DU (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

Yn yr amgylchiad hwn, mae'r academydd wedi gwneud y trefniant yn annibynnol ar y brifysgol y maent yn gweithio iddi, felly'r academydd sy'n gyfrifol yn bersonol am gydymffurfiaeth ac nid y brifysgol fel sefydliad. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw'r academydd yn defnyddio cyfeiriad e-bost eu prifysgol ar gyfer y trefniant hwn.

## Haen Uwch

At ddibenion yr enghreifftiau isod, tybir bod "gweithgareddau perthnasol" yn golygu pob gweithgaredd.

**Enghraifft 4 (angen cofrestru):** Mae Adran Addysg Gwlad E wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae Adran Addysg Gwlad E yn dod i drefniant gyda phrifysgol yn y DU i hyrwyddo blwyddyn leoliad dramor yng Ngwlad E ar gyfer eu myfyrwyr yn y DU, ac yn gyfnewid bydd y brifysgol yn derbyn cyllid grant.

Mae'n ofynnol i'r **brifysgol yn y DU** gofrestru. Maent mewn trefniant gydag Adran Addysg Gwlad E (**pŵer tramor penodedig**) lle cynigir cyllid grant (**cyfarwyddyd**) iddynt i hyrwyddo Gwlad E i fyfyrwyr y DU ar gyfer blwyddyn leoliad dramor (**gweithgaredd perthnasol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 5 (angen cofrestru):** Mae Gweinyddiaeth Wyddoniaeth Gwlad F wedi'i nodi ar yr haen uwch. Mae'r Weinyddiaeth Wyddoniaeth yn cysylltu â phrifysgol yn y DU, ac mae'n llofnodi cytundeb dim datgelu a memorandwm dealltwriaeth gyda hi, ac mae'r ddwy yn cytuno i gynnal trafodaethau ynghylch rhaglen ymchwil bosibl yn y dyfodol i'w hariannu gan y Weinyddiaeth a'i chynnal ym mhrifysgol y DU. Mae'r Weinyddiaeth Wyddoniaeth yn cyfarwyddo'r brifysgol i noddi'r fisâu i'w swyddogion ymweld â'r DU a chytuno ar delerau ar gyfer y rhaglen ymchwil.

Mae'n ofynnol i brifysgol y DU gofrestru. Maent mewn trefniant â Gweinyddiaeth Wyddoniaeth Gwlad F (**pŵer tramor penodedig**) i noddi fisâu a thrafod telerau ar gyfer rhaglen ymchwil bosibl (**gweithgareddau perthnasol**). Mae cyfleoedd posibl yn y dyfodol i'r brifysgol sy'n gysylltiedig â'r rhaglen, sy'n golygu bod hyn yn gyfystyr â **chyfarwyddyd**.

Er nad oes cytundeb ffurfiol ar y rhaglen ymchwil wedi'i lofnodi ar hyn o bryd, mae'r trefniant mwy anffurfiol (wedi'i ategu gan gytundeb dim datgelu a memorandwm dealltwriaeth) i gynnal trafodaethau yn y DU a noddi fisâu ynddo'i hun yn gyfystyr â threfniant cofrestradwy.

**Enghraifft 6 (angen cofrestru):** Mae Llywodraeth Gwlad G wedi'i nodi o dan yr haen uwch. Mae myfyriwr o Wlad G yn astudio cwrs hawliau dynol mewn prifysgol yn y DU, sy'n cynnwys modiwlau ar orthrwm gan y Llywodraeth yn erbyn grŵp ethnig o fewn y wlad. Mae llysgenhadaeth Gwlad G yn y DU yn cysylltu â'r myfyriwr ac yn eu gorfodi i newid cwrs, gan fygwth peidio ag adnewyddu eu pasbort a'u gorfodi i adael y DU os nad ydynt yn ymrwymo. Mae'r myfyriwr yn cydymffurfio â rhwymedigaethau'r llysgenhadaeth ac yn newid i gwrs gwahanol.

Mae'n ofynnol i'r myfyriwr gofrestru gan eu bod wedi'u gorfodi, gyda mesurau gorfodol a ddefnyddiwyd (**cyfarwyddyd**), gan lysgenhadaeth Gwlad G (**pŵer tramor penodedig**) i newid i gwrs prifysgol gwahanol (**gweithgareddau perthnasol**).

**Enghraifft 7 (angen cofrestru):** Gwahoddir academydd i gynhadledd a gynhelir gan Weinyddiaeth Technoleg ac Arloesi Gwlad H, sydd wedi'i phennu ar yr haen uwch. Tra yn y gynhadledd, mae swyddog o'r Weinyddiaeth yn ymgysylltu â'r academydd, sy'n cytuno i gynnal prosiect ymchwil yn y DU a chyflwyno mewn digwyddiad yn y dyfodol. Yn gyfnewid, mae'r Weinyddiaeth yn cynnig y cyfle iddo hyrwyddo a gwerthu ei lyfr yn y digwyddiad ac i ymgysylltu ag arbenigwyr eraill yn y diwydiant i godi ei broffil.

Mae'n ofynnol i'r academydd gofrestru. Mae wedi cael cais, gyda chyfleoedd yn y dyfodol yn cael eu cynnig (**cyfarwyddyd**), gan Weinyddiaeth Technoleg ac Arloesi Gwlad H (**pŵer tramor penodedig**) i gynnal prosiect ymchwil yn y DU (**gweithgareddau perthnasol**).

**Enghraifft 8 (nid oes angen cofrestru):** Mae prifysgol yn y DU yn trefnu cynhadledd ar lenyddiaeth ganoloesol. Maent yn gwahodd sefydliad o Wlad F i fynychu'r gynhadledd, ac yn noddi eu fisâu yn y DU. Mae Llywodraeth gwlad F wedi'i nodi o dan yr haen uwch ond nid oes ganddi unrhyw ran ym mhresenoldeb y sefydliad yn y gynhadledd.

Nid oes angen i'r **brifysgol yn y DU** gofrestru. Er eu bod mewn trefniant gyda sefydliad o Wlad F, nid yw'r sefydliad hwnnw'n rhan o'r pŵer tramor penodedig, ac nid yw'r pŵer tramor penodedig yn cyfarwyddo'r brifysgol i gynnal unrhyw weithgareddau.

**Enghraifft 9 (nid oes angen cofrestru):** Mae Llywodraeth Gwlad H wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae pob prifysgol yn y wlad yn eiddo i'r Llywodraeth, er bod eu gweithrediad o ddydd i ddydd yn annibynnol. Mae prifysgol yn y DU yn mynd i bartneriaeth â phrifysgol, nad yw ei hun wedi'i phennu ar yr haen uwch, yng Ngwlad H. Mae'r ddwy yn sefydlu rhaglen gyfnewid i ganiatáu i fyfyrwyr o bob prifysgol wneud rhaglenni astudio dramor ac ar gyfer ymgysylltu rhwng ymchwilwyr.

Nid oes angen cofrestru gan nad yw'r brifysgol yng Ngwlad H, y mae'r brifysgol yn y DU mewn trefniant â hi, yn endid penodedig a reolir gan bŵer tramor. Er bod Llywodraeth Gwlad H wedi'i phennu, nid yw hyn yn golygu bod pob endid sy'n eiddo i'r Llywodraeth neu a reolir ganddi wedi'i bennu'n awtomatig.

# Adran 3: Esemptiadau rhag cofrestru

23. Mae eithriadau rhag cofrestru yn berthnasol i:
    - Trefniadau corff coron y DU (y ddwy haen);
    - Pwerau tramor yn gweithredu'n agored (y ddwy haen);
    - Aelodau o'r teulu diplomyddol (y ddwy haen);
    - Gweithgareddau cyfreithiol a gyflawnir gan gyfreithiwr (y ddwy haen);
    - Cyhoeddwyr newyddion cydnabyddedig (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Cronfeydd cyfoeth sofran sy'n cyflawni gweithgareddau sy'n gysylltiedig â buddsoddi (haen dylanwad gwleidyddol yn unig);
    - Gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol i gefnogi cenadaethau diplomyddol (haen uwch yn unig);
    - Trefniadau corff cyhoeddus y DU (haen uwch yn unig);
    - Rhai trefniadau addysg a ariennir (haen uwch yn unig);
    - Rhai gwasanaethau gweinyddol llywodraeth (haen uwch yn unig).

24. Yn ogystal â'r esemptiadau hyn, ni fyddai angen cofrestru unrhyw weithgareddau cyfathrebu cyhoeddus lle mae'n rhesymol glir bod y gweithgaredd wedi'i wneud ar gyfarwyddyd pŵer tramor o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, oherwydd ni fyddent yn bodloni'r diffiniad o "weithgaredd dylanwad gwleidyddol". Felly, ni fyddai angen cofrestru unrhyw ymchwil gyhoeddedig a fwriadwyd i ddylanwadu ar broses wleidyddol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, pe bai'n glir ar yr adroddiad ymchwil ei fod wedi'i gwblhau fel rhan o drefniant gyda phŵer tramor. Efallai y bydd angen cofrestru o dan yr haen uwch o hyd, os caiff ei gynnal ar gyfarwyddyd pŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

25. Nodir crynodebau o'r esemptiadau sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'r sectorau academaidd, addysg uwch ac ymchwil isod. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr holl eithriadau yn y canllawiau ar yr haen dylanwad gwleidyddol neu'r canllawiau ar yr haen uwch.

## Trefniadau Corff Coron y DU (y ddwy haen))

26. Nid oes angen cofrestru trefniadau pan fydd y Deyrnas Unedig yn rhan o'r trefniant hwnnw. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lle mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran y Goron (er enghraifft, gwas sifil), neu unrhyw endid sydd â statws coron, yn rhan o'r trefniant.

27. Er enghraifft, pan fo trefniant yn bodoli rhwng pŵer tramor a phrifysgol yn y DU, ac mae adran o lywodraeth y DU hefyd yn rhan o'r un trefniant, bydd yr esemptiad hwn yn berthnasol. Ni fydd yr esemptiad yn berthnasol os yw prifysgol y DU mewn dau drefniant ar wahân – un gyda phŵer tramor ac un gydag adran o lywodraeth y DU.

**Enghraifft 10 (mae esemptiad yn berthnasol) (haen dylanwad gwleidyddol):** Mae Adran Sero Net Gwlad Z, ynghyd â Llywodraeth y DU, yn darparu cyllid ar y cyd i sefydliad ymchwil yn y DU i gynnal prosiect ymchwil ar effaith cerbydau allyriadau uchel ar iechyd ac, wedi hynny, i gyflwyno canfyddiadau i seneddwyr yn y ddwy wlad i ddylanwadu ar eu pleidlais ar ddarn o ddeddfwriaeth a fyddai'n gwahardd gwerthiannau newydd o'r cerbydau hyn.

Er y byddai hyn yn gyfystyr â gweithgareddau dylanwad gwleidyddol a gynhelir ar gyfarwyddyd pŵer tramor (Adran Sero Net Gwlad Z), mae'r ffaith bod adran o lywodraeth y DU wedi ariannu'r trefniant ar y cyd yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol.

**Enghraifft 11 (mae esemptiad yn berthnasol) (haen uwch):** Mae academi genedlaethol sy'n eiddo i'r wladwriaeth yng Ngwlad A, sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch, ynghyd â Llywodraeth y DU, yn darparu cyllid i brifysgol yn y DU iddynt gynnal prosiect ymchwil i ffactorau sy'n dylanwadu ar bryder ymhlith myfyrwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

Gan fod adran o Lywodraeth y DU wedi ariannu'r prosiect ar y cyd, mae'r esemptiad yn berthnasol ac nid oes angen cofrestru.

## Trefniadau cyrff cyhoeddus y DU (haen uwch yn unig)

28. Nid oes angen cofrestru trefniadau pan fo corff cyhoeddus y DU (gan gynnwys Ymchwil ac Arloesi'r DU (UKRI)) yn rhan o'r trefniant hwnnw. Mae hyn yn cynnwys trefniadau lle mae unrhyw unigolyn sy'n gweithredu ar ran corff cyhoeddus y DU (er enghraifft, cyflogai) yn rhan o'r trefniant.

29. **Nid** yw'r esemptiad hwn yn berthnasol i drefniadau lle mae cyrff cyhoeddus llywodraeth leol ac ysgolion a gynhelir, ysgolion academi a sefydliadau addysg bellach ac uwch yn rhan o'r trefniant.

30. Dim ond pan fo corff cyhoeddus y DU yn rhan wirioneddol o'r trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig (er enghraifft, pe bai'n gytundeb amlochrog sy'n cynnwys corff cyhoeddus y DU a'r pŵer tramor penodedig) y mae'r esemptiad yn berthnasol. Nid yw cyfranogiad corff cyhoeddus y DU yn y gweithgareddau yn unig yn golygu bod yr esemptiad yn berthnasol.

31. Yn yr un modd, lle mae corff cyhoeddus y DU yn rhan o ran o drefniant yn unig, byddai angen cofrestru'r rhan arall o'r trefniant o hyd. Er enghraifft, lle mae gan drefniant gyda phŵer tramor penodedig elfennau ffurfiol ac anffurfiol, a dim ond rhan o'r elfen ffurfiol yw corff cyhoeddus y DU, efallai y bydd angen cofrestru elfennau anffurfiol y trefniant o hyd os bodlonir yr holl amodau.

32. Hyd yn oed os yw corff cyhoeddus yn y DU yn rhan o'r trefniant, bydd angen i berson mewn trefniant gyda phŵer tramor (gan gynnwys pŵer tramor penodedig) gofrestru gyda FIRS lle mae'r trefniant hwn yn golygu eu bod yn cael eu cyfarwyddo i gynnal gweithgaredd dylanwad gwleidyddol yn y DU.

**Enghraifft 12 (mae esemptiad yn berthnasol):** Mae corff cyhoeddus yn y DU ac asiantaeth benodedig o bŵer tramor yn ariannu prosiect ymchwil cydweithredol ar y cyd rhwng prifysgol yn y DU a phrifysgol dramor ac mae Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn bodoli rhwng y pedwar parti hyn. Mae llawer o'r gweithgaredd yn cynnwys cynnal ymchwil yn y DU, yn ogystal â chyfarfodydd a gynhelir yn y DU rhwng y brifysgol yn y DU a’r brifysgol dramor. Gan fod corff cyhoeddus y DU yn rhan o'r trefniant (gan eu bod yn ariannu'r prosiect ar y cyd â'r asiantaeth benodedig o'r pŵer tramor), nid oes angen i brifysgol y DU a'r brifysgol dramor gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

**Enghraifft 13 (mae esemptiad yn berthnasol):** Gwahoddir corff cyhoeddus yn y DU sy'n cynnal ymchwil i gynhadledd yn y DU a gynhelir gan bŵer tramor penodedig gyda'r awgrym, os byddant yn mynychu, y gallai cyfleoedd ymchwil pellach fod yn cael eu cynnig gan y pŵer tramor penodedig. Nid oes angen i gorff cyhoeddus y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS gan eu bod yn rhan ohono.

**Enghraifft 14 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol):** Mae corff cyhoeddus yn y DU ac asiantaeth benodedig o bŵer tramor yn ariannu prosiect ymchwil cydweithredol ar y cyd rhwng prifysgol yn y DU a phrifysgol dramor. Y tu allan i'r prosiect ymchwil cydweithredol hwn, mae'r asiantaeth benodedig o bŵer tramor yn ariannu prifysgol y DU yn unochrog i gynnal ymchwil ar wahân y tu allan i'r prosiect ymchwil cydweithredol. Bydd yn rhaid i brifysgol y DU gofrestru'r trefniant ar wahân hwn gyda'r pŵer tramor penodedig gan nad yw corff cyhoeddus y DU yn rhan ohono.

## Trefniadau addysg a ariennir (haen uwch yn unig)

33. Pan fo rhywun mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig lle mae'r pŵer tramor yn rhoi cymorth ariannol iddynt tra byddant yn cwblhau cwrs addysg bellach neu uwch yn y DU, ni fydd angen iddynt gofrestru pan fyddant yn cael eu cyfarwyddo gan y pŵer tramor hwnnw i gyflawni gweithgareddau sy'n rhesymol angenrheidiol i sicrhau y bydd y myfyriwr yn:

    a. Parhau neu gwblhau'r cwrs addysg, cymryd rhan lawn yn y cwrs a neilltuo digon o amser iddo (er enghraifft, ei wneud yn ofynnol i fyfyriwr fynychu digwyddiad croeso yn eu man astudio).

b. Cynnal enw da darparwr y cymorth ariannol neu'r addysg (er enghraifft, cydnabod darparwr y cymorth mewn unrhyw erthyglau a gyhoeddir ganddynt o ganlyniad i'w cyllid). Nid yw hyn yn cynnwys hyrwyddo neu amddiffyn enw da pŵer tramor penodedig (er enghraifft, cyhoeddi deunydd i'w ddosbarthu ar y campws sy'n hyrwyddo polisi tramor y pŵer tramor penodedig).
c. Bodloni'r safonau ymddygiad a ddisgwylir yn rhesymol gan ddarparwr y cymorth ariannol neu'r addysg (er enghraifft, cadw at gyfraith y DU, neu hysbysu unrhyw berson, megis darparwr y cymorth, o fanylion penodol fel eu manylion cyswllt, gwybodaeth sydd ei hangen i fonitro eu cynnydd tuag at gwblhau eu cwrs).

34. Pan fo rhywun sy'n darparu addysg uwch neu bellach mewn trefniant gyda phŵer tramor penodedig i hwyluso trefniant a ddisgrifir uchod, mae'r person hwnnw hefyd wedi'i esemptio rhag cofrestru gyda FIRS.

35. Dim ond oherwydd bod rhywun mewn trefniant addysg eithriedig nid yw'n golygu eu bod wedi'u hesemptio rhag cofrestru unrhyw drefniant gyda FIRS. Er enghraifft, pan fo rhywun mewn trefniant ysgoloriaeth esemptiedig yn cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig neu endid a reolir gan bŵer tramor i gynnal gweithgaredd sydd y tu allan i'r gweithgaredd a gwmpesir gan yr esemptiad, fel trefnu protest ar gampws prifysgol yn y DU, bydd yn rhaid iddynt gofrestru hyn gyda FIRS.

36. Mae'r Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) yn berthnasol i rai myfyrwyr ac ymchwilwyr tramor, y mae'n rhaid iddynt gael cliriad ATAS cyn dechrau astudiaeth neu ymchwil lefel ôl-raddedig mewn meysydd sensitif sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn y DU. Mae'r Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn gweinyddu'r cynllun ac yn cyhoeddi tystysgrifau ATAS. Pan fo angen tystysgrif ATAS ar fyfyriwr cyn dechrau cwrs sy'n dod o dan drefniant ysgoloriaeth, dim ond os yw tystysgrif ATAS wedi'i chael cyn iddynt ddechrau'r cwrs hwnnw y bydd yr esemptiad ysgoloriaeth uchod yn berthnasol.

**Enghraifft 15 (mae'r esemptiad yn berthnasol i fyfyriwr):** Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae myfyriwr yn ymrwymo i drefniant gyda Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V lle mae'n derbyn cyllid i gwblhau gradd prifysgol yn y DU. Fel rhan o amodau'r cyllid hwn, cânt eu cyfarwyddo i gyflawni nifer o weithgareddau yn y DU gan gynnwys mynychu dosbarthiadau ym mhrifysgol y DU a rhoi diweddariad blynyddol i'r pŵer tramor ar gynnydd eu cwrs. Nid oes angen i'r myfyriwr gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS.

**Enghraifft 16 (mae'r esemptiad yn berthnasol i brifysgol yn y DU):** Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Maent yn anfon 7 myfyriwr o wlad y pŵer tramor penodedig i brifysgol yn y DU i astudio. Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V yn cyfarwyddoi’r brifysgol y DU i anfon adroddiad blynyddol ar gynnydd academaidd y myfyrwyr. Nid oes angen i brifysgol y DU gofrestru'r trefniant hwn gyda FIRS cyn belled â mai’r pwrpas oedd hwyluso trefniant ar gyfer darparu cymorth ariannol i'r myfyrwyr.

**Enghraifft 17 (nid yw'r esemptiad yn berthnasol):** Mae Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V wedi'i phennu o dan yr haen uwch. Mae myfyriwr yn dod i drefniant gyda Gweinyddiaeth Addysg Gwlad V lle mae'n derbyn cyllid i gwblhau gradd prifysgol yn y DU. Ddwy flynedd i mewn i'w cwrs, mae swyddogion llysgenhadaeth y DU o Wlad V yn cysylltu â'r myfyriwr ac mae’n cael ei gyfarwyddo i drefnu protest yn erbyn siaradwr gwadd sy'n feirniadol o Wlad V. Er bod ei radd prifysgol wedi'i hesemptio, mae'n ofynnol i'r myfyriwr gofrestru'r cyfarwyddyd i drefnu protest gyda FIRS.

# Adran 4: Senarios cyffredin sy'n effeithio ar y sector addysg uwch ac ymchwil

### Haen Dylanwad Gwleidyddol

### Prosiectau ymchwil ar gyfer (neu mewn cydweithrediad â) pwerau tramor

37. Nid oes angen cofrestru'r mwyafrif helaeth o drefniadau ymchwil o dan yr haen dylanwad gwleidyddol. Efallai y byddant yn dal i fod angen eu cofrestru o dan yr haen uwch os bydd pŵer tramor neu endid a reolir gan bŵer tramor a bennir o dan yr haen uwch yn cyfarwyddo hynny.

38. Dim ond pe bai'r ymchwil yn rhan o ymdrech fwriadol gan bŵer tramor i ddylanwadu ar ddemocratiaeth y DU, er enghraifft, maes penodol o bolisi'r llywodraeth, y byddai angen cofrestru o dan yr haen wleidyddol. Gallai hyn fod yn wir os, er enghraifft:
    - Mae'r pŵer tramor yn cyfarwyddo ymchwilwyr i gynnig newidiadau polisi neu ddeddfwriaethol penodol fel rhan o'r adroddiad ymchwil;
    - Mae'r pŵer tramor yn cyfarwyddo ymchwilwyr yn benodol i gyflwyno'r ymchwil i uwch wneuthurwyr penderfyniadau llywodraeth y DU er mwyn dylanwadu ar benderfyniad polisi; neu
    - Mae'r pŵer tramor yn cyfarwyddo academydd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar i fil neu bwyllgor dethol.

39. Ar yr amod bod gan academyddion neu ymchwilwyr ddisgresiwn llwyr ynghylch casgliadau, canlyniadau neu argymhellion yr ymchwil a gyflwynir mewn adroddiad ymchwil (heb ddylanwad gan bŵer tramor), ni fydd angen cofrestru'r prosiect ymchwil o dan yr haen dylanwad gwleidyddol.

40. Dim ond os ydynt yn ymwneud â chynnal neu drefnu gweithgareddau dylanwad gwleidyddol y byddai academyddion, ymchwilwyr neu fyfyrwyr unigol sy'n ymwneud â phrosiect ymchwil o fewn cwmpas haen dylanwad gwleidyddol FIRS. Lle mai eu rôl yw cynnal ymchwil yn unig, nid oes angen iddynt gofrestru o dan yr haen hon ac nid ydynt mewn perygl o gyflawni trosedd.

41. Ni fyddai angen i academyddion sy'n cynnal adolygiad gan gymheiriaid o astudiaeth arall gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol.

**Enghraifft 18a (angen cofrestru) (pŵer tramor yn cyfarwyddo gweithgareddau dylanwad gwleidyddol a gynhelir fel rhan o ymchwil):** Mae pŵer tramor yn darparu cyllid i brifysgol yn y DU gynnal prosiect ymchwil i effeithiau plannu coed ar yr amgylchedd, ac yn gosod amodau ar sut y dylid cynnal yr ymchwil. Mae'r pŵer tramor yn cyfarwyddo'r brifysgol i gynnwys adran o'r adroddiad ymchwil sy'n cynnig newidiadau polisi er mwyn caniatáu i goed ychwanegol gael eu plannu yn y DU. Mae'r brifysgol yn cynnal yr ymchwil ac yn ei chyhoeddi heb ddatgan bod yr ymchwil wedi'i chyfarwyddo gan y pŵer tramor.

Mae'n ofynnol i **brifysgol y DU** gofrestru. Mae wedi cael cyllid gan **bŵer tramor** gydag amodau (**trefniant a chyfarwyddyd**) sy'n cynnwys cyhoeddi adroddiad ymchwil sydd â'r bwriad o ddylanwadu ar benderfyniad polisi'r Llywodraeth (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**), heb ddatgan yn yr adroddiad cyhoeddedig ei fod wedi'i gyfarwyddo gan bŵer tramor. Pe bai'r brifysgol wedi ei gwneud yn glir ar yr adroddiad cyhoeddedig ei bod wedi'i chyfarwyddo gan bŵer tramor, yna ni fyddai'n ofynnol iddynt gofrestru (gweler adran 3).

**Enghraifft 18b (nid oes angen cofrestru) (mae'r ymchwil yn cael ei chyfarwyddo gan bŵer tramor, ond nid y gweithgareddau dylanwad gwleidyddol):** Mae pŵer tramor yn darparu cyllid i brifysgol yn y DU gynnal prosiect ymchwil i effeithiau plannu coed ar yr amgylchedd, ac yn gosod amodau ar sut y dylid cynnal yr ymchwil. Mae prifysgol y DU yn cynnal yr ymchwil yn unol â'r amodau hyn ac yn cyhoeddi adroddiad terfynol (y mae ganddi reolaeth olygyddol lwyr drosto) sy'n cynnwys argymhellion ar gyfer polisïau newydd y gall y DU eu mabwysiadu i alluogi plannu coed ychwanegol. Cyflwynir yr adroddiad i Lywodraeth y DU a chyflwynir uchafbwyntiau ohono mewn sesiynau tystiolaeth lafar i ASau.

Nid oes angen cofrestru gan, er bod y brifysgol yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, nad ydynt yn cael eu cyfarwyddo gan bŵer tramor. Mae hyn oherwydd bod gan brifysgol y DU ddisgresiwn llwyr ynghylch yr argymhellion a gyflwynir yn yr adroddiad, heb ddylanwad gan bŵer tramor.

**Enghraifft 19a (angen cofrestru) (cyfarwyddyd gan bŵer tramor):** Mae sefydliad ymchwil yn y DU yn ysgrifennu briff polisi ynghylch cyflwyno ceir hunan-yrru ar draffyrdd y DU. Mae pŵer tramor, y mae ei wlad yn arwain ym maes datblygu technoleg hunan-yrru, yn ymwybodol bod y briff hwn yn cael ei wneud. Mae'r pŵer tramor yn cysylltu â'r sefydliad ymchwil ac yn ei gyfarwyddo i fewnbynnu gwybodaeth benodol i'r briff, gan awgrymu y byddai methu â gwneud hynny yn peryglu trefniant masnachol ar wahân sy'n bodoli eisoes. Cyflwynir y briff polisi i weinidogion a gweision sifil uwch yn yr Adran Drafnidiaeth ac mae'n gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau polisi.

Mae'n ofynnol i'r **sefydliad ymchwil yn y DU** gofrestru. Mae'r **pŵer tramor** yn cyfarwyddo'r sefydliad ymchwil i gynnwys gwybodaeth benodol gyda bygythiad o ganlyniadau negyddol os na fyddant yn cydymffurfio (**trefniant a chyfarwyddyd**). Yna cyfathrebir y briff polisi i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU (**gweithgaredd dylanwad gwleidyddol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 19b (nid oes angen cofrestru) (dim cyfarwyddyd gan bŵer tramor):** Mae sefydliad ymchwil yn y DU yn ysgrifennu briff polisi ynghylch cyflwyno ceir hunan-yrru ar draffyrdd y DU. Mae'n ymgynghori â phŵer tramor sydd eisoes wedi cyflwyno ceir hunan-yrru yn eu gwlad eu hunain i gael mewnbwn ar eu profiad. Mae'r pŵer tramor yn darparu manylion am ei brofiadau a data o'i astudiaethau ei hun i lywio'r briff. Mae'r sefydliad ymchwil yn dadansoddi'r wybodaeth a ddarperir ac yn dewis y wybodaeth y mae'n ei hystyried fwyaf perthnasol i'w chynnwys yn y briff. Cyflwynir y briff polisi i weinidogion a gweision sifil uwch yn yr Adran Drafnidiaeth a gwneir argymhellion ar gyfer newidiadau polisi.

Nid oes angen cofrestru gan, er bod y pŵer tramor wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r briff, nid ydynt wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Mae hyn oherwydd bod gan y sefydliad ymchwil ddisgresiwn llwyr dros yr argymhellion a wneir yn yr adroddiad.

## Gweithdai a chynadleddau polisi

42. Gellir ystyried bod y rhai sy'n trefnu neu'n cymryd rhan mewn gweithdai llunio polisi, cynadleddau neu ddigwyddiadau eraill yn cynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol, os yw uwch swyddog cyhoeddus neu wleidydd yn y gynulleidfa ac yn cyfathrebu â nhw (naill ai'n uniongyrchol neu drwy araith i'r gynulleidfa gyfan) yn y digwyddiad.

43. Fodd bynnag, dim ond os oedd eu cyfranogiad yn y digwyddiad yn rhan o gyfarwyddyd ehangach gan bŵer tramor i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU (neu fater gwleidyddol arall) y byddai angen iddynt gofrestru o dan yr haen dylanwad gwleidyddol. Byddai angen iddynt wybod, neu ddisgwyl yn rhesymol, bod uwch swyddog cyhoeddus neu wleidydd yn y gynulleidfa ac yn bwriadu iddynt gael eu dylanwadu fel rhan o'r cytundeb ehangach hwnnw cyn i ofynion cofrestru fod yn berthnasol.

**Enghraifft 20a (angen cofrestru):** Mae prifysgol yn y DU wedi cael ei chomisiynu'n ffurfiol gan Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad A i gynnal prosiect ymchwil i effaith tariffau mewnforio'r DU ar nwyddau amaethyddol, ac i gyflwyno canfyddiadau i Lywodraeth y DU gyda'r bwriad o ddylanwadu ar wariant llywodraeth y DU yn y dyfodol. Mae academydd yn y brifysgol yn cyflwyno canfyddiadau ei ymchwil mewn gweithdy polisi lle mae uwch weision sifil yn y gynulleidfa, gan amlinellu'r achos pam y dylid lleihau tariffau mewnforio.

Mae'n ofynnol i brifysgol y DU gofrestru. Maent wedi cael eu comisiynu'n ffurfiol (**cyfarwyddyd**) gan Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad A (**pŵer tramor**) i gyfathrebu ag uwch weision sifil i ddylanwadu ar benderfyniad ynghylch tariffau mewnforio (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 20b (nid oes angen cofrestru):** Mae prifysgol yn y DU wedi cael ei chomisiynu'n ffurfiol gan Weinyddiaeth Amaethyddiaeth Gwlad A i gynnal prosiect ymchwil i effaith tariffau mewnforio'r DU ar nwyddau amaethyddol. Mae academydd yn y brifysgol yn trafod y canfyddiadau mewn gweithdy gydag academyddion eraill ac arbenigwyr yn y diwydiant.

Nid oes angen cofrestru gan nad oes unrhyw weithgareddau dylanwad gwleidyddol yn digwydd.

## Gweithgareddau ymgyrchu gwleidyddol myfyrwyr

44. Er na fyddai angen cofrestru ar gyfer y rhan fwyaf o ymgyrchoedd gwleidyddol myfyrwyr, byddai'n rhaid i fyfyrwyr gofrestru gweithgareddau ymgyrchu gwleidyddol o dan yr haen dylanwad gwleidyddol os:
    - Cyfarwyddwyd y gweithgareddau hynny gan bŵer tramor; a
    - Roedd y gweithgareddau hynny yn golygu “gweithgareddau dylanwad gwleidyddol”.

45. Mewn achosion o'r fath, mae’r gofyniad cofrestru'n disgyn ar y rhai sy'n ymrwymo i'r trefniant gyda'r pŵer tramor. Nid yw’n ofynnol i fyfyrwyr sy'n cyflawni gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn unol â threfniant rhwng corff myfyrwyr, cymdeithas neu fudiad a phŵer tramor gofrestru'n unigol, ond, lle dylent wybod yn rhesymol am y trefniant pŵer tramor, mae'n ofynnol iddynt wirio bod y corff myfyrwyr, y gymdeithas neu'r mudiad sydd yn y trefniant gyda'r pŵer tramor wedi cofrestru.

46. Gall gweithgareddau ymgyrchu gwleidyddol (gan gynnwys protestiadau neu lobïo, hyd yn oed os nad ydynt yn targedu gwleidyddion neu wneuthurwyr penderfyniadau'r DU yn uniongyrchol) fod angen eu cofrestru o dan yr haen uwch os yw'n cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedigl neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor (gweler y canllawiau ar yr haen uwch).

**Enghraifft 21a (angen cofrestru):** Mae cymdeithas myfyrwyr mewn prifysgol yn y DU yn cael ei chyfarwyddo gan Lywodraeth Gwlad P i lofnodi deiseb ac ymgyrchu yn erbyn penderfyniad llywodraeth y DU i gyfyngu ar fewnforion ac allforion i ac o Wlad P. Mae Cymdeithas y Myfyrwyr yn trefnu protest yn y brifysgol, ac yn gwahodd eu AS lleol i fynychu. Yn y brotest, mae Cymdeithas y Myfyrwyr yn ceisio dylanwadu ar yr AS i ymuno â'u hachos i newid safbwynt llywodraeth y DU.

Mae'n ofynnol i'r **gymdeithas fyfyrwyr** gofrestru gan eu bod mewn trefniant â Llywodraeth Gwlad P (**pŵer tramor**) y maent yn derbyn cyllid ganddi (**cyfarwyddyd**) i ymgymryd â gweithgareddau ymgyrchu i ddylanwadu ar benderfyniad llywodraeth (**gweithgareddau dylanwad gwleidyddol**).

**Enghraifft 21b (nid oes angen cofrestru) (dim trefniant â phŵer tramor):** Mae cymdeithas myfyrwyr o fewn prifysgol yn y DU yn lansio deiseb yn erbyn penderfyniad diweddar llywodraeth y DU i gyfyngu ar fewnforion ac allforion i ac o Wlad P. Maent hefyd yn ysgrifennu at eu AS lleol yn ceisio ei berswadio i gefnogi eu hachos.

**Nid** oes angen i'r gymdeithas myfyrwyr gofrestru, gan nad ydynt mewn trefniant â phŵer tramor.

**Enghraifft 21c (nid oes angen cofrestru) (dim gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael eu cynnal):** Mae Llywodraeth Gwlad P yn cyfarwyddo cymdeithas myfyrwyr o fewn prifysgol yn y DU i gynnal gweithgareddau ymgyrchu o fewn y brifysgol, gan gynnwys gwrthdystiadau ar y campws ac areithiau yn erbyn siaradwr gwadd sy'n feirniadol o Wlad P.

**Nid** oes angen i'r gymdeithas myfyrwyr gofrestru, gan nad ydynt yn ymgymryd â gweithgaredd dylanwad gwleidyddol. Fodd bynnag, byddai hyn yn galw am gofrestru o dan yr haen uwch pe bai Llywodraeth Gwlad P wedi'i phennu.

## Haen Uwch

## Grantiau ymchwil, ymgynghoriaeth ar lefel prifysgol a threfniadau ariannu eraill

47. Mae'n ofynnol i brifysgolion sy'n derbyn cyllid gan bŵer tramor penodedig neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor gofrestru o dan yr haen uwch os oes amodau ynghlwm wrth y cyllid i'w ddefnyddio mewn ffordd benodol. Er enghraifft, os yw cyllid wedi'i ddarparu gan bŵer tramor penodedig a maent wedi cyfarwyddo y dylid ei ddefnyddio at ddiben prosiect ymchwil penodol, byddai'n gofrestradwy.

48. Nid oes gwahaniaeth pa gyfran o gyfanswm y cyllid a gyfrannir gan y pŵer tramor penodedig. Mae'n bosibl bod angen cofrestru prosiect sydd ond yn cael ei ariannu'n rhannol gan bŵer tramor penodedig, os darperir yr arian gydag amodau i'w ddefnyddio mewn ffordd benodol.

49. Fodd bynnag, ni ystyrir grantiau anghyfyngedig sy'n rhoi'r ymreolaeth i'r grant-dderbynydd ddefnyddio'r cyllid yn y ffordd y maent yn ei gweld yn briodol yn "gyfarwyddyd" ac felly <u>nid</u> oes angen cofrestru arnynt. Yn yr un modd, nid yw cyllid a ddarperir at ddibenion ymchwil generig o fewn maes penodol, ond heb amodau y dylid ei ddefnyddio mewn ffordd benodol neu i gyflawni canlyniad penodol, yn gofrestradwy.

50. Pan ddarperir cyllid gan bŵer neu endid tramor penodedig i gefnogi prosiect neu fenter sy'n digwydd beth bynnag, ac nad yw'r cyllid hwnnw'n dylanwadu ar sut mae'r prosiect neu'r fenter yn cael ei chynnal, nid yw hynny'n gyfystyr â chyfarwyddyd.

51. Mae gofynion cofrestru yn berthnasol waeth beth fo'r ddisgyblaeth y cynhelir yr ymchwil ynddi.

**Enghraifft 22 (mae angen cofrestru):** Mae prifysgol yn y DU yn derbyn grant gan bŵer tramor penodedig, sy'n cyfarwyddo'r brifysgol i ddefnyddio'r cyllid i gynnal prosiect ymchwil ar ddefnyddioldeb deallusrwydd artiffisial o fewn y sector gofal iechyd.

Mae'n ofynnol i **brifysgol y DU** gofrestru. Maent mewn **trefnian**t gyda **phŵer tramor penodedig** ac yn derbyn cyllid gydag amodau ynghlwm (**cyfarwyddyd**) i gynnal prosiect ymchwil (**gweithgaredd perthnasol**). Nid oes unrhyw esemptiadau'n berthnasol.

**Enghraifft 23 (nid oes angen cofrestru):** Mae sefydliad ymchwil yn y DU, sy'n arbenigo mewn ymchwil feddygol, yn derbyn rhodd gan bŵer tramor penodedig i gefnogi ei ymchwil. Nid oes unrhyw amodau penodol ynghlwm wrth y rhodd, heblaw ei bod wedi'i bwriadu i'w defnyddio ar gyfer ymchwil feddygol.

**Nid** oes angen i'r sefydliad ymchwil yn y DU gofrestru. Mae'r cyllid wedi'i ddarparu i gefnogi gwaith y brifysgol yn gyffredinol, ond nid oes amodau ynghlwm wrtho y dylid ei ddefnyddio mewn ffordd benodol.

**Enghraifft 24 (nid oes angen cofrestru):** Mae sefydliad ymchwil yn y DU yn derbyn grant gan brifysgol dramor, sy'n cael ei rheoli gan bŵer tramor penodedig, ond nad yw wedi'i phennu ei hun. Mae'r grant yn cynnwys amodau y dylid ei ddefnyddio i gynnal prosiect ymchwil penodol sy'n ceisio deall effaith newid hinsawdd ar amaethyddiaeth y DU. Nid oes unrhyw arwydd o unrhyw gyfranogiad gan y pŵer tramor penodedig wrth ddarparu'r cyllid grant.

**Nid** oes angen i'r sefydliad ymchwil yn y DU gofrestru. Er bod y brifysgol dramor yn cael ei rheoli gan bŵer tramor penodedig, nid ydynt eu hunain yn endid penodedig a reolir gan bŵer tramor.

**Enghraifft 25 (nid oes angen cofrestru):** Mae gan brifysgol yn y DU gampws tramor yng Ngwlad X, y mae ei llywodraeth wedi'i phennu ar yr haen uwch. Mae'r campws tramor yn endid cyfreithiol ar wahân i brifysgol y DU. Mae'r campws tramor yn derbyn grant gan Lywodraeth Gwlad X, sy'n cynnwys amodau i'w ddefnyddio ar brosiect ymchwil ar effaith chwaraeon wrth adsefydlu carcharorion. Cynhelir y prosiect ymchwil cyfan yng Ngwlad X.

Nid oes angen i brifysgol y DU, na'u campws tramor, gofrestru, gan fod y gweithgareddau'n cael eu cynnal yn gyfan gwbl y tu allan i'r DU.

## Rhoddion dyngarol

52. Nid yw'n ofynnol i brifysgolion y DU gofrestru unrhyw roddion dyngarol a ddarperir fel cefnogaeth gyffredinol i waith prifysgol. Dim ond pe bai'r rhodd wedi'i darparu gan bŵer neu endid tramor penodedig, ac wedi'i hategu ag amodau ar gyfer ei defnyddio mewn ffordd benodol, y byddai'n ofynnol iddynt gofrestru.

53. Nid oes angen i'r brifysgol gofrestru rhoddion dyngarol a ddarperir gan gyn-fyfyrwyr sydd bellach yn gweithio i lywodraeth a bennwyd, os cânt eu darparu yn rhinwedd breifat y cyn-fyfyrwyr.

**Enghraifft 26a (angen cofrestru gan brifysgol y DU):** Mae prifysgol yn y DU yn derbyn rhodd ddyngarol gan bŵer tramor penodedig, a ddarperir trwy gyn-fyfyriwr sydd bellach yn gweithio i'r pŵer tramor hwnnw. Mae'r rhodd yn egluro ei bod wedi dod o'r pŵer tramor penodedig a'i bod wedi'i bwriadu i'w defnyddio i ddarparu ar gyfer gwell cefnogaeth i fyfyrwyr o'r wlad.

Mae'n ofynnol i brifysgol y DU gofrestru, gan eu bod wedi cael rhodd gydag amodau ynghlwm (**cyfarwyddyd**) gan **bŵer tramor penodedig** ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth i fyfyrwyr (**gweithgareddau perthnasol**).

**Enghraifft 26b (nid oes angen cofrestru):** Mae prifysgol  y DU yn derbyn rhodd ddyngarol gan gyn-fyfyriwr sydd bellach yn gweithio i bŵer tramor penodedig. Daw'r rhodd gan y cyn-fyfyriwr fel unigolyn yn eu rhinwedd breifat a chyfarwyddir y brifysgol i ddefnyddio'r cyllid i wella addysgu yn y gyfadran lle astudiodd y cyn-fyfyriwr yn flaenorol.

Nid oes angen cofrestru gan fod y rhodd wedi dod gan unigolyn yn eu rhinwedd breifat, a heb gyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig.

## Ymwelwyr academaidd a myfyrwyr o wledydd y mae eu llywodraeth wedi'i phennu

54. Nid yw'r ffaith bod ymwelydd academaidd i'r DU yn teithio o wlad y mae ei llywodraeth wedi'i phennu yn sbarduno gofyniad iddynt hwy, nac unrhyw brifysgol yn y DU sy'n eu cynnal, gofrestru. Nid yw ymweliadau allanol o'r DU yn "weithgareddau perthnasol" o ystyried nad yw'r gweithgaredd yn digwydd yn y DU ac felly nid oes gofyniad i gofrestru trefniant o'r fath.

55. Dim ond pe baent wedi cael eu cyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig, neu endid penodedig a reolir gan bŵer tramor, i gynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU y

byddai'n ofynnol i ymwelwyr â'r DU gofrestru. Yn yr amgylchiadau hyn, dylai prifysgol yn y DU wirio bod yr ymwelydd wedi cofrestru gyda FIRS cyn eu cynnal. Fodd bynnag, os nad oedd gan y brifysgol unrhyw fodd o wybod bod yr ymwelydd wedi cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig, yna ni fyddai'r brifysgol yn cyflawni trosedd.

56. Gall ymwelwyr academaidd sy'n derbyn cyllid ysgoloriaeth gan bŵer tramor penodedig elwa o'r esemptiad ar gyfer trefniadau addysg a ariennir, felly nid yw'n ofynnol iddynt hwy na'r brifysgol sy'n eu derbyn gofrestru mewn perthynas â'r gweithgareddau a gwmpesir gan yr esemptiad.

**Enghraifft 27a (angen cofrestru):** Mae athro o brifysgol yng Ngwlad B, y mae ei llywodraeth wedi'i phennu, yn ymweld â'r DU ar gyfer gwaith cydweithio ymchwil ac mae'n cael ei gynnal gan brifysgol yn y DU. Mae ymchwil yr athro wedi'i ariannu gan Lywodraeth Gwlad B, ac mae'r cysylltiad rhyngddynt wedi'i ddogfennu a'i gyhoeddi'n dda, gan gynnwys y ffaith y dylai ymgysylltu ag ymchwilwyr y DU ar y pwnc.

Mae'n ofynnol i'r **athro** gofrestru cyn ymgysylltu ag ymchwilwyr y DU gan ei fod mewn trefniant â Llywodraeth Gwlad B (**pŵer tramor penodedig**) lle mae'n cael ei ariannu gydag amodau ynghlwm (**cyfarwyddyd**) i ymgysylltu ag ymchwilwyr y DU (**gweithgareddau perthnasol**). Dylai prifysgol y DU (gan fod yn ymwybodol ei bod yn gweithredu yn unol â chyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig) wirio ei bod wedi cofrestru cyn ei chynnal.

**Enghraifft 27b (nid oes angen cofrestru):** Mae athro o brifysgol yng Ngwlad B, y mae ei llywodraeth wedi'i phennu, yn ymweld â'r DU ar gyfer gwaith cydweithio ymchwil ac mae'n cael ei chynnal gan brifysgol y DU. Er bod y brifysgol yng Ngwlad B yn cael ei rheoli gan y llywodraeth, mae'r gwaith cydweithio ymchwil yn y DU yn digwydd yn annibynnol ar unrhyw gyfarwyddyd gan y pŵer tramor penodedig. Felly, nid oes angen i'r athro na'r brifysgol yn y DU gofrestru.

**Enghraifft 27c (nid oes angen cofrestru):** Mae myfyriwr o Wlad B yn derbyn cyllid ysgoloriaeth gan Lywodraeth Gwlad B, sydd wedi'i phennu. Mae telerau'r ysgoloriaeth yn cynnwys bod yn rhaid i'r myfyriwr ysgrifennu adroddiad canol blwyddyn a diwedd blwyddyn ar gynnydd. Er bod y myfyriwr wedi cael ei gyfarwyddo gan bŵer tramor penodedig, nid oes rhaid iddo gofrestru gan fod ei weithgareddau wedi'u hesemptio (gweler adran 3). Yn yr un modd, nid oes angen i brifysgol y DU gofrestru.

Pe bai llywodraeth gwlad B yn cyfarwyddo'r myfyriwr i gynnal gweithgareddau ychwanegol nad ydynt yn gysylltiedig â'i astudiaethau, yna byddai'n ofynnol iddo gofrestru.

## Partneriaethau â phrifysgolion a reolir gan y wladwriaeth

57. Lle mae pŵer tramor wedi'i bennu o dan yr haen uwch, nid yw hynny'n golygu bod pob mudliad, sefydliad neu brifysgol sy'n cael eu rheoli gan y pŵer tramor hwnnw

hefyd wedi'i bennu. Dim ond os cânt eu henwi mewn rheoliadau fel endid penodedig a reolir gan bŵer tramor y byddai'r endidau hyn yn cael eu hystyried yn benodedig. Felly, dim ond os yw'r prifysgolion eu hunain wedi'u pennu y byddai'n rhaid i'r rhai sy'n cynnal gweithgareddau perthnasol yn y DU ar gyfarwyddyd prifysgolion a reolir gan bŵer tramor penodedig gofrestru.

58. Lle mae gan rywun reswm i gredu eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy (er enghraifft, trefniant rhwng pŵer tramor a phrifysgol sy'n eiddo i'r wladwriaeth), yna dylent wirio bod y trefniant wedi'i gofrestru. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddai gan y rhai sy'n cynnal gweithgareddau ymchwil academaidd unrhyw reswm i wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy.

**Enghraifft 28 (nid oes angen cofrestru):** Mae prifysgol y DU yn cytuno â phrifysgol dramor yng Ngwlad Y i gydweithio ar brosiect ymchwil ar y cyd ym maes pensaernïaeth. Mae Llywodraeth Gwlad Y wedi'i phennu ar yr haen uwch ond, er bod y brifysgol dramor yn cael ei rheoli gan y Llywodraeth, nid yw'r brifysgol ei hun wedi'i phennu. Nid yw Llywodraeth Gwlad Y wedi cyfarwyddo'r prosiect ymchwil chwaith.

Nid oes angen i'r DU na'r brifysgol dramor gofrestru, gan nad oes cyfarwyddyd gan bŵer tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU. Nid yw pennu pŵer tramor yn golygu'n awtomatig bod pob endid a reolir gan y pŵer tramor hwnnw hefyd wedi'i bennu.

# Adran 5: Y gofrestr gyhoeddus ac eithriadau i gyhoeddi

59. Bydd gwybodaeth benodol a gofrestrwyd sy'n ymwneud â threfniadau i gynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol yn cael ei chynnwys ar gofrestr gyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys trefniadau a gofrestrwyd o dan yr haen dylanwad gwleidyddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau a gofrestrwyd o dan yr haen uwch sy'n ymwneud â chynnal gweithgareddau dylanwad gwleidyddol. Ni fydd cofrestriadau eraill o dan yr haen uwch (er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â gweithgareddau ymchwil yn unig) yn cael eu cyhoeddi.

60. Ni chyhoeddir yr holl wybodaeth a ddarperir wrth gofrestru. Gweler y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus am ragor o fanylion.

61. Mae eithriadau i gyhoeddi yn berthnasol yn y senarios canlynol:
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio diogelwch neu fuddiannau'r DU.
    - Lle mae risg y byddai cyhoeddi yn niweidio atal neu ganfod troseddau, ymchwiliad troseddol neu achosion troseddol;
    - Lle mae risg sylweddol y byddai cyhoeddi yn peryglu diogelwch unrhyw unigolyn yn ddifrifol.
    - Lle byddai cyhoeddi yn golygu datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol.

62. Gall eithriadau i gyhoeddi fod yn berthnasol i gofrestriad cyfan (sy'n golygu nad oes unrhyw fanylion yn cael eu cyhoeddi) neu i wybodaeth benodol yn unig o fewn cofrestriad (sy'n golygu bod y cofrestriad yn cael ei gyhoeddi ond gyda'r wybodaeth honno wedi'i golygu).

63. Bydd cofrestreion sy'n credu bod eithriad i gyhoeddi yn berthnasol yn cael cyfle i ddarparu tystiolaeth i ddangos bod yr eithriad yn berthnasol ar ddiwedd y broses gofrestru.

64. Yr eithriad sydd fwyaf tebygol o fod yn berthnasol i'r sector academaidd yw'r eithriad lle byddai cyhoeddi yn cynnwys datgelu gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol. Gellir dod o hyd i fanylion pellach am yr eithriadau eraill i gyhoeddi yn y canllawiau ar y wybodaeth sy'n ofynnol wrth gofrestru a'r gofrestr gyhoeddus.

## Gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol

65. Dylai sefydliadau sy'n credu bod yr eithriad ar gyfer gwybodaeth sy'n sensitif yn fasnachol yn berthnasol ddarparu tystiolaeth wrth gyflwyno eu cofrestriad i arddangos:
    - Mae gwybodaeth a fyddai’n cael ei chyhoeddi yn gyfrinachol; a
    - Mae’n debygol iawn y bydd ei chyhoeddi’n niweidio buddiannau masnachol unrhyw unigolyn neu endid o ddifrif.

66. Ystyrir bod gwybodaeth yn gyfrinachol os:
    - Nid yw'n hysbys yn gyffredinol i unigolion allanol i'ch sefydliad, nac ar gael iddynt, oni bai bod angen iddynt gael mynediad at y wybodaeth i gyflawni eu rolau (fel y gall fod yn wir gyda rhai contractwyr neu bartneriaid ymchwil); a
    - Mae'n destun mesurau i'w hatal rhag cael ei datgelu y tu allan i'r cylchoedd caeedig hyn (er enghraifft, cyfyngiadau mynediad yn yr ardal lle mae'r wybodaeth yn cael ei storio; neu gytundebau contractiol sy'n gwahardd datgelu'r wybodaeth).

67. Er mwyn i'r eithriad hwn fod yn gymwys, rhaid bod cysylltiad clir rhwng cyhoeddi a niwed i fuddiannau masnachol. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, lle mae manylion penodol a fyddai'n cael eu cyhoeddi a fyddai'n fanteisiol iawn i gystadleuydd.

68. Er y bydd y dystiolaeth sy'n dderbyniol i ddangos eithriad yn amrywio ym mhob achos, gellid darparu'r mathau canlynol o dystiolaeth (os ydynt y briodol ac yn berthnasol):
    - Copïau o Gytundebau Dim Datgelu neu fanylion rhwymedigaethau contractiol,
    - Ceisiadau patent neu ddogfennau diogelu eiddo deallusol eraill,
    - Asesiadau arbenigol o werth masnachol y wybodaeth.

69. Nid yw risg o niwed i enw da o ganlyniad i gyhoeddi, ynddo'i hun, yn golygu bod yr eithriad i gyhoeddi yn berthnasol. Byddai angen darparu tystiolaeth ynghylch sut y byddai cyhoeddi yn achosi'r niwed hwnnw i enw da a sut y byddai'n niweidio buddiannau masnachol y sefydliad yn ddifrifol.

# Adran 6: Materion ychwanegol sy'n berthnasol i'r sector

## Gofyniad i ddiweddaru cofrestriad pan fydd newid sylweddol

70. Lle bo newid sylweddol i'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru, rhaid i'r brifysgol ddiweddaru'r wybodaeth a ddarparwyd wrth gofrestru o fewn 14 diwrnod i'r newid sylweddol. Mae'r canlynol yn gyfystyr â newid sylweddol:
    - Newid yn nyddiad gorffen y gweithgareddau (er enghraifft, lle mae prosiect sy'n gofrestradwy yn cael ei ymestyn)
    - Ymchwilwyr neu academyddion newydd yn ymwneud â gweithgareddau cofrestradwy, lle maent yn allanol i'r sefydliad sydd wedi cofrestru;
    - Gweithgareddau newydd i'w cynnal o dan drefniant presennol, lle mae'r gweithgareddau hynny hefyd yn gofrestradwy o dan FIRS.

71. Mae'n bwysig nodi mai dim ond i weithgareddau cofrestradwy y mae'r gofynion hyn yn berthnasol. Pan fydd prifysgol yn ymgymryd â phrosiect lle mai dim ond is-set o'r gwaith hwnnw sy'n cael ei wneud fel rhan o drefniant cofrestradwy, yna dim ond newidiadau sy'n ymwneud â'r is-set cofrestradwy honno o waith sydd angen eu diweddaru. Ni fyddai newidiadau i gwmpas ehangach agweddau ar y prosiect yn cael eu cofrestru os nad ydynt yn gysylltiedig â'r trefniant cofrestradwy.

72. Nid yw newidiadau bach i'r dull ymchwil, y dulliau neu'r cwmpas yn gyfystyr â newid sylweddol.

**Achos 1 (yn seiliedig ar enghraifft 22 o adran 4) (mae angen diweddariadau i gofrestru):**

Mae prifysgol y DU yn cofrestru ei threfniant gyda'r pŵer tramor penodedig, gan ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- **Natur a ffurf y trefniant:** Darperir grant i brifysgol y DU gan y pŵer tramor penodedig i gynnal prosiect ymchwil ar ddefnyddioldeb deallusrwydd artiffisial o fewn y sector gofal iechyd.

**- Gweithgareddau i'w cynnal:** Prosiect ymchwil sy'n ffurfio is-set o brosiect ehangach ar dechnoleg o fewn y sector gofal iechyd sy'n cael ei gynnal gan y brifysgol.

**Yna mae'r brifysgol yn cynnal y gweithgareddau canlynol:**

- Mae'r brifysgol yn dechrau ei phrosiect ymchwil i ddefnyddioldeb deallusrwydd artiffisial o fewn y sector gofal iechyd. *Gan fod yr ymchwil hon yn rhan o'r gweithgareddau a grybwyllir wrth gofrestru (y prosiect ymchwil), nid oes angen unrhyw gamau pellach i gydymffurfio â FIRS.*

- Hanner ffordd drwy'r prosiect, mae'r pŵer tramor penodedig yn ei gwneud yn ofynnol i brifysgol y DU gyflwyno eu canfyddiadau interim mewn cynhadledd a gynhelir gan eu llysgenhadaeth yn y DU. *Gan fod hyn yn cynrychioli newid yn natur a ffurf y gweithgareddau, rhaid i'r brifysgol ddiweddaru'r cofrestriad.*

- Mae'r brifysgol yn cytuno ar estyniad 6 mis i'r prosiect. ***Gan fod hyn yn cynrychioli newid yn y trefniant, sef dyddiad gorffen newydd, rhaid i'r brifysgol ddiweddaru'r cofrestriad.***

- Mae'r brifysgol yn penderfynu cynnwys prosiect newydd ar nanotechnolegau a'i ymgorffori fel is-set o'r prosiect ehangach ar dechnolegau mewn gofal iechyd. *Er bod hyn yn gysylltiedig â'r prosiect ehangach, mae ar wahân i'r gweithgareddau y gellir eu cofrestru ac felly nid oes angen unrhyw gamau gweithredu.*

## Ar bwy y mae'r gofynion cofrestru yn disgyn

73. Lle bodlonir yr amodau ar gyfer cofrestru o dan y naill haen neu'r llall o FIRS, yr unigolyn neu'r sefydliad sydd yn y trefniant gyda'r pŵer tramor (haen dylanwad gwleidyddol) neu bŵer neu endid tramor penodedig (haen uwch) y mae'n ofynnol iddo gofrestru (y cyfeirir ato fel "P" yn y ddeddfwriaeth).

74. Felly, lle mae prifysgol yn ffurfio trefniant cofrestradwy gyda phŵer tramor, y brifysgol fel endid sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gofrestru.

75. Ni fyddai prifysgol yn cael ei dal yn atebol am amgylchiadau lle gwneir trefniadau heb eu gwybodaeth na'u cyfranogiad, er enghraifft:
    - Lle mae trefniant cofrestradwy yn cael ei ffurfio gan academydd unigol yn ei enw ei hun (er enghraifft, ymchwil breifat neu waith ymgynghori): Mae'r academydd yn gyfrifol am gofrestru;
    - Lle mae trefniant cofrestradwy yn cael ei ffurfio gan gwmni deillio a ffurfiwyd o academyddion o brifysgol: Mae'n ofynnol i'r cwmni deillio gofrestru;
    - Lle mae trefniant cofrestradwy yn cael ei wneud gan is-gwmni i'r brifysgol: Mae'n ofynnol i'r is-gwmni gofrestru;
    - Lle mae trefniant cofrestradwy yn cael ei wneud gan gymdeithas myfyrwyr prifysgol: Mae'n ofynnol i'r gymdeithas gofrestru.

76. Er y gallai academyddion wneud trefniadau gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost eu prifysgol, a gellir cynnal gweithgareddau ar gampws prifysgol, nid yw hyn ynddo'i hun yn trosglwyddo cyfrifoldeb am gofrestru i'r brifysgol.

77. Lle mae prifysgol mewn trefniant cofrestradwy, gall unrhyw gyflogai yn y brifysgol lenwi'r ffurflen gofrestru. Yn yr amgylchiadau hyn, mae angen manylion personol un swyddog yn y brifysgol. Dylai'r swyddog hwn fod yn aelod o uwch reolwyr y brifysgol, fel is-ganghellor. Nid oes angen iddynt o reidrwydd fod yr un unigolyn â'r un sy'n cwblhau'r ffurflen. Cesglir y manylion hyn at ddiben gwirio hunaniaeth, er

mwyn sicrhau nad yw cofrestru'n cael ei wneud yn dwyllodrus yn enw rhywun arall neu sefydliad arall.

78. Dylai academyddion neu ymchwilwyr unigol sy'n ymwneud â chynnal gweithgareddau y maent yn gwybod yn rhesymol eu bod yn unol â threfniant cofrestradwy a ffurfiwyd gan y brifysgol wirio a yw'r brifysgol wedi cofrestru'r trefniant cyn cynnal gweithgareddau. Gellir gwneud hyn trwy ofyn am gadarnhad o'r cofrestriad gan y cofrestrydd y gellir ei wirio wedyn trwy gysylltu â Thîm Rheoli Achosion FIRS.

79. Mae mesurau diogelwch yn y ddeddfwriaeth i amddiffyn academyddion, ymchwilwyr neu eraill sy'n ymwneud â gweithgareddau, lle nad oes ganddynt unrhyw ffordd o wybod eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy, er enghraifft:
    - Mae eu gweithgareddau o natur academaidd yn unig, heb unrhyw wybodaeth i awgrymu eu bod wedi cael eu cyfarwyddo gan bŵer neu endid tramor penodedig;
    - Maent yn gwybod bod yr endid y maent yn gweithio gydag ef yn eiddo i'r wladwriaeth, yn cael ei reoli gan y wladwriaeth neu wedi'i gysylltu'n agos â'r wladwriaeth fel arall, ond nid oes ganddynt unrhyw reswm i wybod bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau y maent yn eu cyflawni mewn gwirionedd;
    - Nid amcanion strategol na gwleidyddol y wladwriaeth yw'r amcanion y maent yn ceisio'u cyflawni trwy eu gweithgareddau, ond yn hytrach amcanion yr endid penodol y maent yn gweithio gydag ef, ac nid oes ganddynt unrhyw wybodaeth i awgrymu bod y wladwriaeth wedi cyfarwyddo'r gweithgareddau hyn.

80. Mae mesurau diogelu tebyg hefyd lle mae'r person wedi cymryd pob cam rhesymol sydd ar gael iddo i wirio a yw'r trefniant wedi'i gofrestru ai peidio ac yn credu ei fod wedi'i gofrestru (gweler adran 67 o Ddeddf Diogelwch Cenedlaethol 2023).

81. Nid oes dyletswydd benodol ar unrhyw gyflogeion, isgontractwyr na phersonau eraill sy'n cynnal gweithgareddau i gynnal diwydrwydd dyladwy yn rhagweithiol i weld pwy sy'n cyfarwyddo'r gweithgaredd. Y peth allweddol yw a oes ganddynt wybodaeth neu ffeithiau ar gael iddynt sy'n awgrymu y gallent fod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy - ac os oes ganddynt wybodaeth neu ffeithiau o'r fath, yna dylent wirio ei fod wedi'i gofrestru.

**Astudiaeth achos 1 (haen uwch):** Mae prifysgol y DU yn ymrwymo i drefniant gydag asiantaeth llywodraeth dramor sydd wedi'i phennu o dan yr haen uwch, gan gytuno i gynnal prosiect ymchwil i effaith newid hinsawdd ar ddiogelwch bwyd.

Mae prifysgol y DU yn cynnwys ymchwilwyr o sefydliad ymchwil ar wahân mewn agwedd benodol ar y prosiect, heb ddatgan bod yr astudiaeth wedi'i hariannu gan bŵer tramor penodedig.

Mae'n ofynnol i **brifysgol y DU** gofrestru, gan eu bod mewn trefniant uniongyrchol gyda phŵer tramor penodedig.

Nid oes gofyn i'r **sefydliad ymchwil** gofrestru, gan nad ydynt yn barti uniongyrchol i'r trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig. Nid oes unrhyw arwydd ychwaith fod y pŵer tramor penodedig wedi cyfarwyddo'r ymchwil, o ystyried nad yw'r brifysgol wedi dweud hyn wrthynt ac nad oes unrhyw reswm arall i wybod y byddent.

**Astudiaeth achos 2 (haen uwch):** Mae prifysgol yn y DU yn dod i drefniant gyda Gweinyddiaeth Addysg Gwlad Y, sydd wedi'i bennu o dan yr haen well, ac yn cytuno i gynhyrchu adroddiadau blynyddol ar gyfer y Weinyddiaeth ar y rhaglenni gradd a astudiwyd gan fyfyrwyr o Wlad Y yn y brifysgol.

Mae'r brifysgol yn y DU yn gweithio gyda chwmni ymgynghori ystadegol i gynhyrchu'r adroddiadau blynyddol ac mae'r cwmni ymgynghori yn ymwneud yn uniongyrchol ag adolygu drafftiau'r adroddiad, sy'n cynnwys crynodeb gweithredol yn amlinellu eu bod wedi'u cynhyrchu ar gyfer Gweinyddiaeth Addysg Gwlad Y.

Mae'n ofynnol i **brifysgol y DU** gofrestru, gan eu bod mewn trefniant uniongyrchol gyda'r pŵer tramor penodedig.

Nid oes angen i'r **cwmni ymgynghori ystadegol** gofrestru, gan nad ydynt yn barti uniongyrchol i'r trefniant gyda'r pŵer tramor penodedig. Fodd bynnag, mae gwybodaeth ar gael yn glir iddynt yng nghrynodeb gweithredol yr adroddiad sy'n dangos eu bod yn gweithredu yn unol â threfniant cofrestradwy, felly rhaid iddynt wirio bod y brifysgol yn y DU wedi cofrestru'r trefniant cyn cynnal gweithgareddau.

## Rhyngweithio â chynlluniau eraill y Llywodraeth

82. Mae gofynion FIRS, Deddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol (NSIA), rheolaethau allforio strategol y DU a'r Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) ar wahân ac yn wahanol. Nid yw cofrestru, neu gymeradwyo, o dan un o'r cynlluniau hyn yn gyfwerth â chydymffurfio â phob un ohonynt.

83. Mae'r haen uwch o FIRS yn ei gwneud yn ofynnol cofrestru (ond nid cymeradwyo) trefniadau gyda phwerau neu endidau tramor penodedig i gynnal gweithgareddau yn y DU, yn ogystal â chofrestru gweithgareddau perthnasol a gyflawnir gan endidau penodedig.

84. Mae Deddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol yn rhoi pwerau i'r Llywodraeth graffu ac ymyrryd mewn caffaeliadau yn economi'r DU, megis cymryd drosodd busnesau, er mwyn amddiffyn diogelwch cenedlaethol. Fel rhan o hyn, rhaid i gaffaelwyr hysbysu a chael cymeradwyaeth gan y Llywodraeth ar gyfer rhai mathau

o fargeinion sy'n cynnwys endidau sy'n gweithredu mewn sectorau arbennig o sensitif o'r economi.

85. Mae rheolaethau allforio strategol y DU yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhai sy'n allforio neu'n trosglwyddo rhai mathau o nwyddau, meddalwedd neu dechnoleg wneud cais am drwydded allforio cyn eu hallforio neu eu trosglwyddo.

86. Mae'r Cynllun Cymeradwyo Technoleg Academaidd (ATAS) yn berthnasol i rai myfyrwyr ac ymchwilwyr tramor, y mae'n rhaid iddynt gael caniatâd ATAS cyn dechrau astudio neu ymchwilio ar lefel ôl-raddedig mewn meysydd sensitif sy'n gysylltiedig â thechnoleg yn y DU. Mae'r Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn gweinyddu'r cynllun ac yn cyhoeddi tystysgrifau ATAS.

87. Mewn amgylchiadau lle mae angen cofrestru neu gymeradwyo o dan gynlluniau lluosog, bydd angen prosesu'r rhain ar wahân.